# MARWNAD.

ER

COFFADWRIAETH

AM Y

## Parch. Mr. Evan Evans,

O'R FFOS, PLWYF LLANWRTYD:

*YR HWN A YMADAWODD A'R BYD, AWST 23ain.*

Ac a Gladdwyd yn Addoldŷ Pont Rhyd-fere, Awst y 26*ain*. 1828. Yn 70 mlwydd o'i Oed.

Pregethodd ar yr achlysur, y Parch D. Williams *Llanwrtyd*, a'r Parch W. Hafard, oddi wrth *Esa*. 40. 28. a *Sal*. 50. 5.

---

GAN THOMAS ELIAS.

---

*A'r doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder a fyddant fel y ser byth yn dragywydd.*

*DANIEL.*

TALGARTH:

*ARGRAFFWYD, GAN E. HUGHES.*

1828.

5996

## *MARWNAD, &c.*

CYFOD Awen gwisg dy aden,
   Burwen â Galarnad dû,
Oer Newyddion gair yn gyson,
   Trist a thrymion o bob tu;
Fod Cenhadon hedd yn marw,
   A fu'n loyw ar y maes,
D'weud yn gyhoedd i'r werinoedd,
   Am oludoedd cyfoeth gras.

2 Yn y Gogledd a'r Deheudir,
   Claddwyd Brodyr cywir cawn,
Doeth a duwiol, da defnyddiol,
   Llawn o nefol Ddwyfol ddawn;
Wedi gorphen maent yn gorphwys,
   Y'mharadwys bur eu Tad,
Gwedi rhoi ffarwel trag'wyddol
   'Nawr i ardal anial wlad.

3 Gyd â'r rheini a ddiangodd,
   Trwy grafangau Angau loes,
Un arbenig, ŵr parchedig,
   Anwyl *Evans* ddoeth o'r *Ffôs*;
Mwy ni's clyw'n ei ymadroddion,
   Mewn cyngorion doethion dwys,
Mewn oer anedd mae E'n gorwedd,
   Yn ei geu-fedd dan y gwys.

4 Ei ddawn addas hardd wiw urddas,
   Mewn cymdeithas mwy ni's cawn,
Fel y diliau oedd ei eiriau,
   Peraidd fel y sypiau grawn;

Gwir genadwr, 'Efangylwr,
Effro wyliwr ar y mûr,
Bugail ffyddlon, porthwr cyson
I braidd Seion borfa bûr.

5 Gwisgwyd *Evans* mewn modd prydferth,
'Hardd â gwiw-nerth oddi fry,
Bu'n gweinyddu dros ei Arglwydd,
Gyd â llwydd yn llawer llu;
Dwys effeithiau yn ei eiriau,
Megis saethau llymion iawn,
Gorfu d'weud ar goedd y fyddin,
Gyd â dychryn, Beth a wnawn.

6 Cafodd drwy ei weinidogaeth,
Droedigaeth aml un,
Gwelwyd yno gyflwr euog,
Brwnt a halog etto y'nglyn;
Hefyd gwelwyd gwisg a wëwyd,
A orphenwyd ar y bryn,
Gwelwyd ffynnon darddodd allan,
I wneud aflan dû yn wyn.

7 Gwedi geni byddai'n magu,
Ac yn maethu'r eiddil gwan,
Cryfhau gliniau, llesg feddyliau
I ddringo'r tylau serth i'r lan;
Mewn ymadrodd pwyllog medrus,
Tynai ŵr rhyfygus lawr,
'Nol rheolau Dwyfol eiriau,
Ac esamplau'r Blaenor mawr.

8 Ymddiddanion dwys a thirion,
Llwyr ei ymadroddion llawn,
Fyth ni flinai neb a'i clywai
Foreu ddyddiau na phrydnhawn;
Doeth odiaethol lywodraethwr,
Tangnefyddwr yn ei ddydd,

5996.

Bu ugeiniau o Flynyddau
'N Athraw da i deulu'r ffydd.

9 Bu'n arweinydd pererinion,
Drwy arw droion dyrus daith,
Gofal calon arno'n gyson,
Rhag cyfeiliorn anial maith;
Lle b'ai eisiau, rhwydd y rhoddai
Ocheliadau mewn nacâd,
Rhag ymylau cribog greigiau.
Trist godwmau trwstan draed.

10 Rhoddai eilwaith wir anogaeth,
At iawn gyfraith bur y Nef,
Rheol union y fforddolion
I'w i Seion sanctaidd ef;
Trwy amynedd yma redeg,
Ein byr adeg yn y byd,
Syllu, serchu, caru'r Iesu,
Nes yn gwbl fyn'd a'n bryd.

11 Fe gaed bywyd *Evans* beunydd,
Llawn o ddeunydd llawn o ras,
Er pob gelyn, gyd â'r fyddin
Yn eu herbyn ar y maes;
Cadarnhau wnai y frawdoliaeth,
Y ceir buddugoliaeth lawn,
Trwy y gongcwest fawr enillodd
Eu Tywysog un prydnhawn.

12 Gwyddai'n helaeth mewn gwybodaeth,
Hanesyddiaeth yn gyttun,
O'r uchelwr pen coronog,
Hyd y tlawd anenwog un;
Medrai'n dirion i dosturio,
Cyd-ymdeimlo gyd â'r gwan,
Dan ei faich y rhodda'i ysgwydd,
I gael gogwydd tu a'r lan.

13 Gwnae gyfranu yn feunyddiol,
A Blynyddol roddion rhad,
At anghenion y gwir dlodion.
Dan wasgfeuon yn y wlad;
Yn eu cyfyngderau diriaid,
Y deuai'r gweiniaid atto'n llu,
I gael crysau * i'w cynesu,
Cyn dygn oerni'r gauaf du.

14 Boneddigion, cyfoethogion,
Byddwch haelion at ei nôd,
Boed yn wiwlwys wlad ac eglwys,
Sathru yn gymwys ol ei droed:
Ond Och! newydd trist o'r trymaf,
Clwy' ac anaf gwelaf fi,
T'rawodd angeu *Evans* anwyl,
Daeth ei arwyl oer i ni.

15 Dyma golled pwy a'i gwella,
Gwelai'r adwy yn eitha' lled,
Llywydd lluoedd, 'rho a'i llanwo,
Dywed wrtho, Brysia rhêd;
Deuparth hyfryd o'r un ysbryd,
Rhodiad hefyd, bywyd pur.
Un diragrith, gwr diragfarn,
Colofn gadarn dros y gwir.

16 *Awst* y *trydydd dydd ar ugain*,
Heb rîf yu rhagor, aeth yn rhydd,
Ar foreu-ddydd daeth ei fudfa
O breswylfa'r babell bridd;
I drigfanau pur y Nefoedd.
At y lluoedd sydd yn llawn,

---

* *Rhoddai werth Pum Punt o Wlanen bob Blwyddyn, at Grysau i dlodion ei blwyf.*

Yn cyd foli fyth heb dewi,
Am y prynu un prydnhawn.

17 Yr oedd marw iddo'n elw,
Etto chwerw iawn i ni,
Trwm och'neidiau, wylaw dagrau
Dros y gruddiau lawr yn llî;
Dygnaidd glwy' yn wir ei gladdu,
Lawr a'i roddi yn y rhŷch,
Yno 'mlith y lliaws pobloedd,
Ni feddai canoedd wyneb sŷch.

18 Trist feddyliau, trwm galonau,
Gan ugeiniau fel y plwm,
Briddo Penaeth hardd gym'dogaeth,
Wylaw alaeth hiraeth llwm;
Ar ol gwladwr gwir haelionwr,
Cymwynaswr dyddiwr da,
Cwlwm heddwch, colofn harddwch,
Meddyg gwelwch rhag drwg bla.

19 At yr achos mwyaf uchel,
'Roedd ei ofal dyfal dwys,
Rho'dd helyntion bydol heibio,
I fod yn gryno yn y gwys;
Yn ei Destament diweddaf,
Rhodd ugeiniau glywaf fi,
At *Addoldai* ei gym'dogaeth,
Lle'i lafur-waith fwyaf fu.

20 Trydar gruddfan a galaru,
Yn 'mhalasau Sion sydd,
O waith cwympo milwr enwog,
Un ardderchog yn ei ddydd;
Cafodd ergyd do gan Angau,
Marwol glwy' a'i gleddau glâs,
Mwy ni's gwelwn gyd â'r werin
Yn y fyddin ar y ma's.

21 *Pont-Rhydferau* gyd â'r *Gorwydd*,
A *Llangamarch* oll yn un,
Hên ac ieuangc yn cyd wylo
Am eu Hathro yn gyttun;
Yr Addoldai lle areithiau,
Sydd yn gwisgo gynau dû,
Am na ddaw o *Evans* yno,
I Areitho fel y bu.

22 Sîr *Frecheiniog* oll ac eraill,
Sy'n galaru ar ei ol,
Am ei fyned na ddaw eilchwil,
'Fath un anwyl fyth yn ol;
Aeth trwy ddyffryn tywyll angau,
'Fe ga'dd hwnnw'n foreu ddydd,
'Fe ddiangodd ar bob gofid,
I gael bywyd perffaith rydd.

23 Wedi aros pump o ddegau,
Tair o flwyddau oll i gyd,
Yn y winllan heb fyn'd allan,
Gyd â phraidd y gorlan glud;
Bu o'r rheini'n athrawiaethu,
Naw a deugain, meddant hwy,
Dweud am gyfoeth a gogoniant,
Gwerthfawr haeddiant marwol glwy.

24 Ond yn awr 'fe hedodd adre,
I artrefle nefol wlad,
At y miloedd sydd yn moli,
Yn dyrchafu Dwyfol waed;
Gwlad a'i lluoedd oll yn llawen,
Gwlad heb angen, gwlad heb drai,
Gwlad heb ofid, gwlad heb gystudd,
Gwlad heb farw, gwlad heb fai.

25 Gwlad Angylion a Seraphiaid,
A Cherubiaid yn gyttun,

Yn cyd-syllu mewn rhyfeddod,
  Ar y Duwdod yn y dyn;
Yno'n bwrw eu coronau
  Wrth ei droed-faingc Ef i lawr,
A'i gydnabod Ef yn Arglwydd
  Daear, Nef, ac Uffern fawr.

26 Gwlad Prophwydi pur a thadau,
  Gwir drigfanau Nefoedd wen,
Gwlad y gwleddoedd yn oes oesoedd
  Ffrwyth y prynu ar y pren;
Apostolion, a Merthyron,
  Saint aneiri' yn gyttun,
Yn moliannu Brenhin bywyd,
  *Evans* hefyd yno'n un.

27 Ffarwel Dad a brawd anwylaf,
  Cyfaill haelaw, Athraw doeth,
Efangylwr, gwir ddiddanwr,
  Brawdwr cu a'i eiriau coeth;
'Hedeg wnest o'n mynwes adre,
  Yna'n llwyr tu fewn i'r llen,
Rhoddaf fynu gan alaru,
  Rhaid dibennu mwy Amen.

Gweinidog, enwog, anwyl,—oedd *Ifans*,
  Un ufudd, i'r perwyl,
  Athraw hŷ, nid dieithr hwyl,
  Doeth eirian, daeth ei arwyl!!

DIWEDD.